**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

25 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Ionawr ynglŷn â chyllideb ddrafft 2024–2025 ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol.

Rwyf wedi defnyddio'r dull o ymateb i bob un o'ch cwestiynau yn ei dro ac mae'n bleser gennyf eu darparu isod yn Atodiad 1.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD 1**

- **Esboniad o'r anghysondeb o £750,000 a amlinellir.**
- **Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol.**

Mae'r £750,000 yn ymwneud â chyllid 2023–24 ar gyfer Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor, y cyfeiriwyd ato yn y llythyr gwreiddiol ond wedi'i hepgor o'r cyfrifiadau cryno drwy gamgymeriad.

Mae'r cyllid hwn bellach wedi cael ei ychwanegu, ac mae dadansoddiad diwygiedig ar draws y BEL isod.  Mae'r gyllideb ar gyfer Gweithrediadau Tramor yn talu am staff a chostau sy'n gysylltiedig â'r costau rhedeg uniongyrchol ar gyfer swyddfeydd tramor, felly ni ellir lleihau'r rhain.  Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gadw'r gyllideb ar gyfer Gweithgareddau'r Rhwydwaith Dramor ar £750,000, gan adlewyrchu'r effaith sylweddol y mae'r gyllideb gymharol fach hon yn ei chael.  Mae hyn yn golygu mai Ymgysylltu Rhyngwladol yw'r unig linell lle y gellir gwneud arbedion.

| | |
|---|---|
| Ymgysylltu Rhyngwladol | £2,658,600 |
| Gweithrediadau Tramor: gan gynnwys rhent swyddfeydd, taliadau platfform FCDO, cyflogau staff ac argostau. | £4,684,400 |
| Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor: gweithgareddau ar draws y rhwydwaith cyfan o 21 o swyddfeydd tramor | £750,000 |
| **CYFANSWM** | **£8,093,000** |

- **Gwybodaeth sy'n ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn BEL Cysylltiadau Rhyngwladol**

Fel y cyfeirir ato yn fy llythyr gwreiddiol, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, ynghyd â dau ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni tair uchelgais yn y Strategaeth Ryngwladol, sef codi proffil Cymru dramor, tyfu'r economi a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Bydd y gweithgareddau'n cefnogi cysylltiadau â blaenoriaeth a byddwn hefyd yn gyflawni gweithgareddau sy'n cael eu datblygu o dan Flwyddyn Cymru yn India.

Oherwydd natur Cysylltiadau Rhyngwladol, gall allbynnau a chanlyniadau diriaethol fod yn anodd eu cyfrifo a'u mesur. Mae cyhoeddi ein hadroddiad rhwydwaith tramor blynyddol yn un o'r dulliau rydym yn eu defnyddio i adrodd ar ein canlyniadau.

- **Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynllunnir ar gyfer 2024–25 yn erbyn 2023–24**

| | **2023–24** | **2024–25** |
|---|---|---|
| Ymgysylltu Rhyngwladol | £2,837,600 | £2,658,600 |
| Gweithrediadau Tramor | £4,684,400 | £4,684,400 |
| Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor | £750,000 | £750,000 |
| **Cyfansymiau** | **£8,272,000** | **8,093,000** |

- **Gwybodaeth am yr hyn a ymddengys fel cynnydd yn y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol ar gyfer 2024–25, gan gynnwys o ble daeth yr arian hwn, pa weithgareddau a chanlyniadau y bydd hyn yn eu cyflawni.**

Mae'r ffigurau diwygiedig ar gyfer cyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol, fel y'i nodwyd uchod, yn dangos bod y £750,000 yn ymwneud â Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor yn hytrach nag Ymgysylltu Rhyngwladol.

Yn unol â'r rhesymeg a roddwyd ynghylch y cwestiwn cyntaf, mae'r holl arbedion o £290,000 a nodwyd cyn y gyllideb ddrafft wedi dod o linell gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol.

- **Eglurhad o’r holl wariant a nodir yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys prosiectau fel yr Academi Heddwch.**

Rhoddwyd manylion am wariant arfaethedig yn fy llythyr gwreiddiol, yn unol â chyflawni'r gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Bydd manylion y gweithgareddau wedi'u cyflawni drwy'r cyllid hwn yn cael eu hamlinellu yn adroddiad blynyddol y Rhwydwaith Tramor.

Gall sefyllfaoedd byd-eang sy'n newid olygu bod ffocws ein gwaith a'n cyllid yn newid yn ystod y flwyddyn, felly mae angen inni fod yn hyblyg ac yn ymatebol.

Ar hyn o bryd mae partneriaid strategol yn ysgrifennu eu ceisiadau am gyllid yn 2024–25. Mae hyn yn cynnwys cyllid i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru i gyflawni Academi Heddwch fel ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn llinell gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol ac nid oes ganddi linell gyllideb ar wahân.

- **Gwybodaeth am sut rydych chi wedi blaenoriaethu eich gwariant gan gynnwys pa arbedion rydych chi wedi'u canfod (a'r rhesymeg dros wneud hynny).**

Rydym wedi blaenoriaethu gwariant, ac felly arbedion, yn seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi bwriadu ei gyflawni o fewn y Strategaeth Ryngwladol a'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Cynhaliodd swyddogion Cysylltiadau Rhyngwladol archwiliad manwl o ofynion y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–25, a nodwyd arbedion gwerth £290,000 yn ogystal â'r gostyngiad parhaus o £171,000 y cytunwyd arno eisoes. Arweiniodd hyn at y gyllideb newydd o £8.093 miliwn. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r gyllideb ar gyfer Gweithrediadau Tramor yn talu am gostau staff ac mae swyddfeydd tramor yn gostau sefydlog na ellir eu lleihau. Felly, rwyf wedi canolbwyntio arbedion ar Ymgysylltu Rhyngwladol o ystyried natur y gyllideb ar gyfer Gweithrediadau Tramor, ac ystyried effaith y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnir gan ddefnyddio cyllideb gymharol fach ar gyfer Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor.

- **Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen ichi eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.**

Rydym yn gwybod bod cyllidebau'n heriol, ac y byddant yn parhau i fod yn heriol; felly, rydym yn blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n rhyngwladol gyda'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny lle gellir cyflawni'r canlyniadau gorau i Gymru.

Gall sefyllfaoedd byd-eang sy'n newid olygu bod ffocws ein gwaith a'n cyllid yn newid yn ystod y flwyddyn. Ni allwn ragweld pryd, neu os, y gallai hyn ddigwydd, a byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau o'r fath sy'n arwain at ailflaenoriaethu cyllid wrth iddynt godi.

Defnyddir y dull hyblyg ac ymatebol hwn ar draws ein holl weithgareddau rhyngwladol, ac mae wedi golygu ein bod wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd annisgwyl i godi proffil Cymru wrth iddynt godi.

**O ran gofynion cyfranogiad ac ariannu partneriaid strategol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol:**

- **Cadarnhad o ba gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid strategol wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft, a chyn ei chyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2023;**
- **Cynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru os yw partneriaid strategol yn adrodd yn Ch1 nad yw'r Gyllideb Ddrafft ostyngol yn ddigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Strategaeth Ryngwladol.**

Rydym yn trafod â'n holl bartneriaid strategol un i un yn rheolaidd er mwyn deall eu cynlluniau a'u gwariant. Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr, gwnaethom gwrdd â'r holl bartneriaid strategol i amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i ddechrau trafodaethau ynghylch sut y gallent gyfrannu at eu cyflawni, o bosibl mewn amgylchedd lle mae'r gyllideb gryn dipyn yn llai. Yn y cyfarfod hwn, trafodwyd yr heriau ariannol yr ydym ei gyd yn eu hwynebu.

Rydym wedi gofyn i bartneriaid strategol gyflwyno eu cynigion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–25. Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth, a chyda'n partneriaid strategol, i barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â'n partneriaid strategol i fonitro cynnydd a chynllunio ariannol, a byddwn yn parhau i wneud hynny dros y flwyddyn ariannol nesaf.

**Dadansoddiad o'r gwariant a gynlluniwyd ar gysylltiadau blaenoriaeth a nodir yn y Strategaeth Ryngwladol ar gyfer 2024–25**

Mae'r cysylltiadau rydym wedi'u datblygu gyda'n gwledydd a'n rhanbarthau â blaenoriaeth yn sail i'n holl waith rhyngwladol, o ddigwyddiadau ac ymweliadau hyd at sicrhau mewnfuddsoddiadau ac allforio ein nwyddau a'n gwasanaethau.

Mae gwaith gyda'n cysylltiadau â blaenoriaeth yn cynnwys gwariant ar draws pob maes o dan Gysylltiadau Rhyngwladol, yn ogystal â'r adran ehangach ac ar draws y llywodraeth. Adlewyrchir hyn mewn gweithgareddau gwahanol a gynhelir, gan gynnwys, er enghraifft croesawu cynrychiolwyr o ranbarthau â blaenoriaeth yn Wythnos Tech Cymru, ymweliadau â rhanbarthau fel Gwlad y Basg a Silesia, ymweliadau i Gymru gan gynrychiolwyr a diplomyddion o wledydd eraill, a'r gwaith parhaus i ddatblygu cysylltiadau newydd pan fo hynny'n briodol.

- **Y rhesymeg dros ailenwi BEL Datblygu Rhyngwladol yn BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol, gan gynnwys pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i'r gwariant o dan y BEL hon.**

Y rhesymeg dros ailenwi BEL Datblygiad Rhyngwladol Boedd adlewyrchu gwaith Rhaglen Cymru ac Affrica yn fwy cywir o fewn y BEL hon. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu uchelgais y Strategaeth Ryngwladol i sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

- **Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o dan BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol.**

- **Pam nad yw'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 o BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i dalu costau Cymru ac Affrica yn ailymddangos fel trosglwyddiad sy'n dod i mewn ar Gyllideb Ddrafft 2024–25.**

Bydd BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn ariannu'r gwaith canlynol yn 2024–25:
  - Maint Cymru/Plannu Coed yn Mbale – £450,000
  - Hub Cymru Affrica – £349,000
  - Grantiau Bach CGGC ar gyfer Cymru ac Affrica £210,000
  - DEC £22,000
  - Cynghrair Mbale yn Erbyn Tlodi (CAP) £12,500
  - Contract diogelu £6,500

Ar gyfer 2024–25, mae'r £350,000 ar gyfer Cymru ac Affrica wedi'i gynnwys yn ffrwd BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn y gyllideb ddrafft. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fydd yn penderfynu ar y defnydd priodol o'r gyllideb.

- **Rhestr o apeliadau brys a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ym mlwyddyn gyllideb 2023–24, o ble y daeth yr arian hwn, a chynlluniau cyfredol ar gyfer cymorth yn ymwneud â gwrthdaro byd-eang yng Nghyllideb Ddrafft 2024–25.**

Nid yw'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) wedi lansio apêl hyd yma ym mlwyddyn ariannol 2023–24. Mae rhoddion blaenorol wedi cael eu gwneud naill ai o BEL Datblygu Rhyngwladol neu BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, drwy ddefnyddio tanwariant neu drwy ddefnyddio arian wrth gefn. Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer ymateb i apeliadau brys.

Bydd unrhyw gyllid yn y dyfodol yn cael ei ystyried fesul achos, gan weithio mewn partneriaeth â'r DEC i gefnogi ei apeliadau.

Mae'r DEC yn gynghrair o 15 o asiantaethau cymorth a datblygu mawr sy'n dod at ei gilydd pan fydd argyfwng i godi arian ac wedyn ei ddosbarthu'n gyflym ac yn effeithlon. Mae ganddo hanes rhagorol o roi gwybod i gyhoedd y DU am argyfyngau byd-eang, a'r cymorth dyngarol sydd ei angen, yn ogystal â sefydlu ffyrdd hawdd o dderbyn rhoddion. Mae DEC yn cael effaith uniongyrchol, gan gael cymorth i bobl sydd ei angen yn gyflym ac yn effeithlon.

- **Gwybodaeth am ddigwyddiadau mawr/rhyngwladol, gan gynnwys dyraniadau cyllideb penodol ar gyfer 2023–24, a manylion unrhyw ddigwyddiadau a gynllunnir a'r gwariant cyfredol a gynllunnir ar gyfer 2024–25.**

Arweinir digwyddiadau mawr gan adran fwyaf priodol Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Cysylltiadau Rhyngwladol, pan fo hynny'n briodol. Er enghraifft, roedd Chwaraeon yn arwain y gwaith ar Gwpan y Byd FIFA, cystadleuaeth y dynion, ond roedd y gwaith ar Gwpan Rygbi'r Byd yn cael ei arwain ar y cyd gan Chwaraeon a'r Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol yn Ffrainc. Nid oes gan Gysylltiadau Rhyngwladol linell gyllideb ar wahân ar gyfer digwyddiadau mawr, ac roedd gwaith ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd diweddar yn Ffrainc yn dod o dan amcanion a chyllideb ehangach Blwyddyn Cymru yn Ffrainc.